

Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 27 Gorffennaf 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd /
Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad

Awdur yr Adroddiad Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd

Teitl Prosiect Gwella Heol y Castell, Llangollen, 2020

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ceisio cymeradwyaeth i barhau gyda gweithrediad Prosiect Gwella Heol y Castell, Llangollen 2020.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn costio £1.75 miliwn i'w gyflawni. Mae diddordeb cymunedol sylweddol yn y prosiect hwn hefyd. Am y rhesymau hynny, ceisir penderfyniad gan y Cabinet i gymeradwyo gweithrediad y prosiect.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ac yn cymeradwyo gweithrediad prosiect gwella Heol y Castell, Llangollen 2020, gan gynnwys y diwygiadau a restrir yn Atodiad A, a arweiniodd o adborth ymgysylltiad cyhoeddus, ac sydd wedi cael eu cytuno gyda'r aelodau lleol.
- 3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad C) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Yn 2018, ffurfiwyd grŵp cymunedol o'r enw Grŵp Llangollen 2020, sy'n cynnwys Cynghorwyr Sir Llangollen a chynrychiolwyr o Gyngor Tref Llangollen.

Yn 2018, cychwynnodd y Grŵp brosiect i ystyried gwella traffig, parcio, diogelwch cerddwyr a materion parth cyhoeddus yng Nghanol y Dref. Cafodd y Grŵp gyllid Cadwyn Clwyd a phenodi ymgynghorydd i ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb.

- 4.2. Cymerodd Swyddogion o Adran Draffig, Priffyrdd, Economaidd a Datblygiad Busnes ran gyson mewn cyfarfodydd prosiect gyda'r Grŵp. Yn unol â'r blaenoriaeth corfforaethol *Cydnherthu Cymunedol*, cadeiriwyd y grŵp gan un o'r aelodau etholedig (Cyng. Graham Timms) yn hytrach na chael ei arwain gan swyddog.
- 4.3. Yn 2018, cynhaliodd Grŵp 2020 ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb i ofyn i bobl am eu barn ar draffig, parcio, diogelwch cerddwyr a materion parth cyhoeddus, yn ogystal â datrysiadau posibl. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys arddangosfa gyhoeddus, arolwg ar-lein, cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol; a chyfarfodydd budd-ddeiliad.
- 4.4. Noddodd yr astudiaeth ddichonoldeb nifer o bryderon, gan gynnwys tagfeydd yn ymwneud â thraffig a pharcio, palmentydd llawer rhy gul, anawsterau i gerddwyr wrth groesi Heol y Castell, ac ansawdd gwael y parth cyhoeddus.
- 4.5. Arweiniodd ganfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb at ddatblygiad dyluniad manwl o'r cynigion trwy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Grŵp Llangollen 2020. Gweler manylion o gynigion y dyluniad yn Atodiadau D ac E. Gellir crynhoi'r cynigion fel a ganlyn: tynnu 14 lle parcio o Heol y Castell i ganiatáu ar gyfer lledu'r palmant; 2 bae llwytho newydd ar Heol y Castell; 1 bae llwytho newydd ar Heol y Farchnad; 1 bae llwytho newydd ar Stryd y Bont; nodweddion lleihau cyflymder a therfyn cyflymder o 20 mya ar Heol y Castell; pwyntiau cyrbau isel i gerddwyr ar hyd Heol y Castell; rhoi palmentydd newydd gyda deunyddiau palmant o safon; cau Short Street; tynnu'r lleoedd parcio ar gyffordd Ffordd yr Abaty/Heol y Castell i ganiatáu ar gyfer lledu'r palmant.
- 4.6. Er mwyn sicrhau bod y gymuned yn deall y cynigion, penderfynodd yr Arweinydd, yr Aelod Arweiniol, Pennaeth Gwasanaeth a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Parth Cyhoeddus y byddai'r Cyngor yn ymgymryd ag ymarfer ymgysylltiad cyhoeddus cynhwysfawr. Cafodd hyn ei lansio ar 15 Mehefin,

2021, ac fe'i cynhaliwyd am 3 wythnos. Roedd yr ymgysylltiad yn cynnwys: dosbarthu llythyrau i breswylwyr a busnesau Llangollen; deunyddiau ymgynghori a holiadur ar-lein; arddangosfa cyhoeddus 5 niwrnod ar Heol y Castell, gyda 450 o fynychwyr a dosbarthwyd holiaduron papur; ymweliadau i fusnesau Heol y Castell a Stryd y Farchnad; sesiynau briffio unigol ar gyfer AS De Clwyd ac MS De Clwyd; cyflwyniad i'r Cyngor Tref.

- 4.7. Derbyniwyd cyfanswm o 507 ymateb i holiaduron yr ymgynghoriad. Roedd 'rhain yn cynnwys 322 holiadur ar-lein ac 185 holiadur ar bapur. O'r 507 ymateb, roedd 95 gan berchnogion busnes, roedd 358 gan breswylwyr, 32 gan ymwelwyr a 16 gan bobl sy'n gweithio yn y dref ond yn byw yn rhywle arall. Mae adroddiad yr ymgynghoriad cyhoeddus llawn i'w weld yn Atodiad F.
- 4.8. Gofynnodd yr holiadur i ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r prif gynigion sydd wedi'u cynnwys o fewn y prosiect. O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd y nifer o bobl a oedd yn cytuno gyda'r cynigion amrywiol yn gyffredinol amrywio o rhwng 60% i 68%, ac eithrio'r 48% o ymatebwyr a gytunodd y byddai'r prosiect yn eu gwneud yn fwy tebygol i gerdded neu seiclo. I'r gwrthwyneb, roedd y nifer o bobl oedd yn anghytuno gyda'r amryw gynig yn amrywio o rhwng 25% a 36%, ac eithrio'r 22% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno gyda'r terfyn cyflymder o 20mya a'r nodweddion gostwng cyflymder a fyddai'n gwneud Heol y Castell yn fwy diogel.
- 4.9. Dywedodd cyfanswm o 64% o ymatebwyr bod y prosiect y syniad da yn gyffredinol, gyda rhai o'r rheiny yn dweud y gellir gwella'r prosiect ymhellach. Dywedodd 36% o ymatebwyr nad yw'r prosiect yn syniad da yn gyffredinol.
- 4.10. Pan roedd ymatebwyr wedi codi materion ansoddol penodol yn yr holiaduron neu yn yr arddangosfa, roedd y mwyafrif o'r rhain yn ymwneud â phryderon ymatebwyr am y cynigion. Y prif faterion a godwyd oedd: roedd lled arfaethedig Heol y Castell rhy gul; colli parcio ar y stryd; y bae llwytho arfaethedig ar gyfer nwyddau yn unig; y cynnig o gau Short Street; lled arfaethedig cyffordd Stryd y Bont a bae llwytho arfaethedig Stryd y Bont.
- 4.11. Mae'r adborth o'r ymgysylltiad cyhoeddus wedi cael ei ystyried yn ofalus, ac wedi'i drafod gyda'r Aelod Arweiniol a'r aelodau etholedig lleol. Mae hyn wedi arwain at rai o newidiadau i'r dyluniadau a gynhigiwyd ar gyfer y prosiect, sydd

i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r pryderon hynny a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad nad arweiniodd mewn newidiadau i'r dyluniad wedi'u rhestru yn Atodiad B, gydag esboniadau o pham na wnaed newidiadau.

4.12. Mae'r ddau aelod etholedig ar gyfer Llangollen yn cefnogi'r prosiect yn llwyr, yn ogystal â Chyngor Tref Llangollen. Gweler Atodiad G ar gyfer datganiadau o gefnogaeth.

4.13. Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo gweithrediad y prosiect, bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn ym mis Medi 2021, gyda disgwyl i'r gwaith ddod i ben erbyn mis Mawrth 2022.

4.14. Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo'r prosiect, y cam nesaf fydd cynnal ymgynghoriad statudol ar gyfer y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, a fyddai'n arwain at ddiwygiadau pellach i'r cyfyngiadau traffig a pharcio arfaethedig. Pe bai angen mwy o newidiadau sylweddol i'r prosiect yn ôl ymgynghoriad y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, yna byddai'r newidiadau yn dod yn ôl i'r Cabinet er ystyriaeth pellach. Byddai'r Arweinydd, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cynllunio Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, a'r Swyddog Monitro'n pennu a yw'r newidiadau'n cael eu hystyried i fod yn sylweddol.

4.15. Argymhellir bod y prosiect yn cael ei weithredu gyda'r diwygiadau arfaethedig a restrwyd yn Atodiad A yn cael eu hymgorffori i ddyluniad y cynllun.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y prosiect arfaethedig yn gwella isadeiledd priffyrdd canol tref Llangollen, gan gyfrannu at y flaenoriaeth *Cysylltu Cymunedau*.

5.2. Arweiniwyd a datblygwyd y prosiect gan y ddau aelod etholedig a chynrychiolwyr Cyngor Tref i ddechrau, yn unol â'r flaenoriaeth *Cymunedau Gwydn*.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect yw £1.75 miliwn, yn seiliedig ar amcangyfrifon manwl o'r costau, sy'n caniatáu cadw ychydig wrth gefn ar gyfer

cynnydd i gostau deunyddiau adeiladu. Caiff ei ariannu gan gyfuniad o gyllid cyfalaf y Cyngor a chyllid grant LIC, a fydd angen cael ei wario erbyn 31 Mawrth 2022. Gweler Atodiad H.

- 6.2. Cafodd y prosiect ei ddatblygu ar y cyd gan swyddogion o fewn Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, yn ogystal â Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd, gyda chymorth gan swyddogion yn y tîm Cyfathrebu.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1. Mae'r prosiect yn cynnwys nifer o fuddion posibl i iechyd pobl a'r amgylchedd, yn nhermau gwella cyfleusterau i gerddwyr, gwella'r parth cyhoeddus a lleihau cyflymderau cerbydau.
- 7.2. Mae rhai busnesau lleol wedi mynegi pryderon am effaith colli parcio arhosiad byr ar y stryd. I liniaru hyn, mae diwygiadau yn cael eu cynnig i weithrediad y baeau llwytho sy'n disodli'r parcio. Bydd y 14 lle parcio ym maes parcio Stryd y Farchnad yn helpu i liniaru yn erbyn hyn hefyd.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Mae paragraffau 4.4 i 4.10 yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r gwaith ymgysylltu sydd eisoes wedi'i gynnal. Mae Atodiad E yn darparu manylion o'r ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd mwyaf diweddar.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Mae cyllid y Cyngor sydd ei angen ar gyfer y prosiect hwn eisoes wedi'i ymgorffori i'n cynlluniau ariannu oherwydd ei fod yn gyllid sydd wedi'i gario ymlaen ar gyfer y gwaith o wella ffyrdd o flynyddoedd blaenorol. Mae'n galonogol bod y prosiect wedi atynnu'r lefel o gyllid allanol a wnaeth, er mwyn iddo allu parhau. Fel gyda phob prosiect cyfalaf, yn enwedig ar hyn o bryd gyda prisiau'n codi ac ansicrwydd economaidd, bydd y bwysig fod y gwariant hwn yn cael ei fonitro'n agos. Cefnogir y cynnig.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r ymgysylltiad cyhoeddus yn dangos gwahaniaethau sylweddol mewn barn am y prosiect ymysg y gymuned leol. Tra bo data'r arolwg yn nodi bod bron i ddau draean o'r ymatebwyr yn credu bod y prosiect yn syniad da'n gyffredinol, mae hynny'n gadael 36% nad ydyn yn meddwl ei fod yn syniad da. Mae'r diwygiadau a restrir yn Atodiad A yn lliniaru rhai o'r pryderon a godir, ond mae'n debygol bod nifer sylweddol o bobl yn gwrthwynebu'r prosiect o hyd.

10.2. Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo'r prosiect, bydd yn cael ei fonitro'n drylwyr.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae Deddf Priffyrdd 1980 yn rhoi pwerau i awdurdodau'r priffyrdd ddiwygio cynllun y briffordd. Mae Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn rhoi pwerau i gyflwyno cyfyngiadau traffig a pharcio i reoleiddio defnydd y briffordd.